

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	RHEOLIADAU'R GIG (GWASANAETHAU FFERYLLOL) (CYMRU) 2020 – CYFLWYNO ASESIAD O ANGHENION FFERYLLOL YNG NGHYMRU
Swyddog (ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Mark Welsby Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd
Adran:	Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth yr Is-adran/Uwch-swyddog Cyfrifol (enw):	Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol
Ysgrifennydd y Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:	Vaughan Gething, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad cychwyn:	

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?	3
Adran 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES CYMDEITHASOL?	7
Adran 3. Beth fydd yr effaith ar les diwylliannol a'r iaith Gymraeg?	10
Adran 4. Beth fydd yr effaith ar les economaidd?	11
Adran 5. Beth fydd yr effaith ar lesiant amgylcheddol?	12
Adran 6. Cofnod o Asesiadau Effaith Llawn sydd eu hangen	15
Adran 7. Canlyniad	17
Adran 8. Datganiad.....	20
A. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth	21

ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Gwnaed darpariaethau yn Neddf Iechyd Cyhoeddus y GIG (2017) i wneud rheoliadau sy'n cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol ac yn cyfuno hyn â rhannau o reoliadau presennol y GIG (Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 y bydd eu hangen o hyd e.e. Telerau Gwasanaethu ar gyfer Fferyllwyr a'r system o fynediad i'r rhestr fferyllol a diwygiadau i'r rhestr honno.

Mae'r broses o gyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn darparu ar gyfer penderfynu ar leoliad a hyd a lled gwasanaethau fferyllol ar sail yr asesiadau hynny. Mae'r darpariaethau hefyd yn ceisio gwella ansawdd gwasanaethau fferyllol drwy annog fferyllfeydd presennol i addasu ac ehangu eu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol.

Yr effaith a fwriedir trwy gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yw gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol trwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau yn ofalus ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cyfateb i'r anghenion hynny. Mae'r cynigion polisi yn gwneud newid sylfaenol i'r ffordd y caiff penderfyniadau am wasanaethau fferyllol eu gwneud gan fyrddau iechyd, gan symud o un a ysgogir gan geisiadau gan gontractwyr fferyllol ac yn canolbwyntio'n drwm ar ragnodi presgripsiynau, i un sy'n effro ac yn ymatebol i anghenion fferyllol ehangach cymunedau lleol.

Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull mwy integredig i nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen fferyllfeydd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn diwallu anghenion fferyllol yn ddigonol a ble mae angen i fferyllfeydd presennol ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

Yr hirdymor

Un o'r pedair thema allweddol yn 'Ffyniant i Bawb' yw 'Iach ac Egnïol', ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai ei nod yw gwella iechyd a lles dinasyddion Cymru. Mae ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn allweddol i gyflawni'r amcan trosfwaol hwn, ac mae *Cymru Iachach* yn nodi'r ffyrdd y disgwyliwn iddynt eu cefnogi, drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal effeithiol a chynaliadwy, a thrwy fynnu eu bod yn rhoi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar gyda'r nod o hybu ffyrdd iach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae'r system reoleiddio bresennol wedi bod ar waith ers mwy na 27 mlynedd, ac nid yw'n adlewyrchu'n ddigonol y ffordd mae rôl fferyllfeydd wedi newid dros y cyfnod hwnnw. Dros y 10 mlynedd diwethaf, nid yw niferoedd fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi newid

rhyw lawer, ond mae nifer y presgripsiynau wedi tyfu o fwy na 40% (o 53.1 miliwn yn 2005/6 i 74.7 miliwn yn 2017/18)¹.

Bydd fferyllfeydd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau yn effeithiol i ddiwallu anghenion fferyllol a nodir. Lle mae diffyg ansawdd neu ddarpariaeth gyson, bydd byrddau iechyd yn gallu rhoi mesurau gwella ar waith. Gallai'r rhain gynnwys cymryd camau yn erbyn fferyllfeydd penodol am dorri telerau ac amodau gwasanaeth yn barhaus, neu wahodd fferyllfeydd ychwanegol i wneud cais i ddarparu gwasanaethau penodol. Dylai hyn arwain at fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau yn fwy cyson ac i safon uwch, a sicrhau bod fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau mewn lleoliadau lle mae eu hangen. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn gwneud penderfyniadau ynghylch derbyn fferyllfeydd newydd yn fwy tryloyw.

Atal

Bydd y newidiadau a gynigir yn cynyddu effeithiolrwydd y cynllunio ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth gymunedol, a'r modd y'u cyflenwir, a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael ag iechyd gwael mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae tua 74.7 miliwn o bresgripsiynau¹ yn cael eu rhagnodi mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru bob blwyddyn. Mae fferyllfeydd cymunedol hefyd yn darparu amgylchedd cyfleus a llai ffurfiol i'r rhai na allant neu nad ydynt yn dymuno ymweld â mathau eraill o wasanaethau iechyd, e.e. mae llawer ohonynt yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu brys, cyngor ar roi'r gorau i ysmegu ac ar iechyd rhywiol. Bydd mesurau ataliol fel darparu cyngor iechyd a lles mewn amgylchedd hygyrch a phroffesiynol yn helpu i fynd i'r afael â materion o'r fath.

Bydd sicrhau gwasgariad priodol o fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen ar bobl leol, hefyd yn helpu i leihau effeithiau amgylcheddol drwy ddarparu gwasanaethau'n nes at y cartref, gan annog fferyllfeydd i gael eu lleoli mewn mannau sy'n hygyrch ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, a thrwy leihau'r angen am siwrneiau car ychwanegol.

Integreiddio

Bydd Aseidiadau o Anghenion Fferyllol yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol.

Bydd cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn galluogi fferyllfeydd i ddarparu gwasanaethau a ddarperid gynt gan wasanaethau meddygon teulu ac ysbytai ac felly'n helpu i ysgafnhau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny. Mae hyn yn cefnogi'r symudiad at gynnig gofal sylfaenol ehangach.

¹Datganiad ystadegau ar gyfer Cymru (<https://llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol-ebrill-2017-i-mawrth-2018>)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu ar gyfer cyfres o nodau llesiant integredig i Gymru. Yn ogystal â nod llesiant penodol 'Cymru Iachach', sy'n disgrifio cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl ar ei orau, mae yna gysylltiadau cryf â dyheadau nodau eraill fel 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynus'.

Mae'r rheoliadau diwygiedig yn caniatáu i fyrddau iechyd ganolbwyntio ar wella ansawdd yn ogystal â sicrhau gwell gwerth am arian. Mae hyn yn cyfrannu at Nodau Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru Gydnerth - drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ataliol yn effeithiol, gan sicrhau bod cymunedau'n gydnerth o ran anghenion gofal a chymorth;
- Cymru Iachach - drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth yn effeithiol er mwyn gwella iechyd a lles pobl;
- Cymru sy'n fwy cyfartal - drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio'n effeithiol y gwaith o ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol a helpu pobl i gyflawni eu hamcanion a chyflawni eu llawn botensial.

Cydweithio

Mae'r partneriaid sydd â budd cyffredin yn y cynnig hwn yn cynnwys byrddau iechyd, fferyllfeydd cymunedol; meddygon fferyllol; contractwyr cyfarpar fferyllol.

Nodwyd y polisi cyffredinol o ran a ddylid cyflwyno Aseidiadau o Anghenion Fferyllol yng Nghymru ac ymgynghorwyd arno yn 2012 yn ystod yr ymgynghoriad polisi sy'n ymwneud â diwygio Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) 1992, a gafodd eu dirymu wedyn a'u disodli gan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

Ymgysylltwyd ag ystod eang o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli byrddau iechyd, fferylliaeth gymunedol a meddygon fferyllol yn ystod 2017-18 drwy weithgor ffurfiol i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer datblygu deddfwriaeth i gyflwyno Aseidiadau o Anghenion Fferyllol yng Nghymru a gwneud newidiadau priodol i'r system rheoli mynediad. Caiff y Rheoliadau drafft eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Cyfranogiad

Fel y nodwyd uchod, mae partneriaid y mae'r cynnig yn effeithio arnynt wedi bod wrthi'n datblygu'r cynnig. Bydd y gweithgor yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a chanllawiau manwl drwy gydol oes y prosiect, gan gynnwys adolygu'r rheoliadau a'r canllawiau drafft.

Effaith

Mae'r dadleuon dros gyflwyno rheoliadau a chanllawiau diwygio wedi'u nodi yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd - Gwasanaethau Fferyllol Rhan 6, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017.²

² <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10796-em/pri-ld10796-em-w.pdf>

Costau ac arbedion

Mae'r manteision, y costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau a'r canllawiau newydd hyn wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd – Gwasanaethau Fferyllol Rhan 6, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017.

Nid oes unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynnig hwn. Er bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol lle mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi, y byrddau iechyd sydd â'r cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol i ddiwallu anghenion y poblogaethau sy'n preswyllo yn eu hardaloedd. Felly, mae gan fyrddau iechyd y cyfrifoldeb hwn eisoes ac er y bydd datblygu, ymgynghori a chyhoeddi Asesiadau o Anghenion Fferyllol yn ofyniad gweithdrefnol newydd, ni fydd yn rhoi unrhyw faich ychwanegol o'i gymharu â'u cyfrifoldebau presennol. Felly, byddai hyn yn cael ei gyflawni o gyllidebau presennol Byrddau Iechyd.

Mecanwaith

Maent yn gynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau newydd sy'n ymwneud ag Asesiadau o Anghenion Fferyllol, fel yr amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd - Gwasanaethau Fferyllol Rhan 6, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017.

ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES CYMDEITHASOL?

2.1 Pobl a Chymunedau

Bwriad Asesiadau o Anghenion Fferyllol yw sicrhau bod fferyllfeydd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu. Felly, dylai aelodau o'r cyhoedd allu cael mynediad i ystod gynyddol o wasanaethau a chynhyrchion yn nes at eu cartrefi, gan wella cyflymder a mynediad i gyngor sy'n effeithio'n gadarnhaol ar eu hiechyd, a lleihau'r angen i deithio. Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol gymedrol ar y boblogaeth gyffredinol ac yn benodol ar bobl hŷn, gofalwyr, y rhai ag anabledau a chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes a theuluoedd â phlant ifanc a fydd yn cael mynediad hwylus at gyngor a chymorth ar iechyd a lles.

Mae disgwyl i'r cynigion gael cyn lleied o effaith â phosibl ar bobl sy'n gweithio mewn fferyllfeydd cymunedol a meddygfeydd meddygon fferyllol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i rai fferyllfeydd, ac felly staff, adleoli, er bod hyn yn debygol o fod o fewn pellter rhesymol. Fel y nodwyd, mae potensial i bobl leol gael eu cyflogi'n ychwanegol fel staff mewn fferyllfeydd pe bai cyfleoedd newydd yn cael eu nodi mewn ymateb i Asesiad o Anghenion Fferyllol.

2.2 Hawliau Plant

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylweddol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau Gweinidogol. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt ystyried yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud a gwneud popeth sy'n bosibl i sicrhau eu bod yn hyrwyddo hawliau plant. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i ystyried wrth ddatblygu polisi asesu anghenion fferyllol.

Er nad oes polisiâu penodol ar gyfer plant neu bobl ifanc wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau o Anghenion Fferyllol, bydd y cynnig hwn yn sicrhau'r mynediad gorau posibl at wasanaethau fferyllol y GIG i blant a phobl ifanc. Bydd cyflwyno'r asesiad o anghenion fferyllol yn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o fewn erthyglau'r CCUHP; yn enwedig Erthygl 24³. Bydd darparu gwasanaethau fferyllol a ategir gan asesiad o anghenion fferyllol yn cefnogi Erthygl 24 gan fod y math hwn o ddarpariaeth gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion cymunedau lleol yn briodol. Mae gan hyn y potensial i esgor ar amrywiaeth o fanteision cadarnhaol o ran iechyd a lles plant a phobl ifanc. Gall gwella asesiadau o anghenion fferyllol lleol arwain at fwy o fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau gwell, a all gynnwys meddyginiaeth ar gyfer trin mân anhwylderau sy'n gyffredin mewn plant, gan gynnwys rhwymedd, pigyn clust, dolur rhydd, clefyd y gwair, llau pen, ecsema ysgafn, brech cewyn a thorri dannedd. Ar ben arall yr ystod oedran, gallai pobl ifanc sy'n agosáu at neu sydd o fewn yr ystod oedran 16 i 18 elwa ar ddarpariaeth well o wasanaethau atal cenhedlu hormonaidd brys a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu.

³Erthygl 24: Dylai plant gael yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da.

Nid yw'r broses o ymgysylltu'n benodol â phlant a phobl ifanc wedi'i chyflawni gan fod cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol, at ei gilydd, yn fater technegol. Fodd bynnag, bydd yr asesiadau o anghenion fferyllol a baratoir gan y byrddau iechyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Felly, bydd y darpariaethau hyn yn helpu i gefnogi hawliau pobl ifanc i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. Cefnogir erthygl⁴ 12 felly.

Cwblhawyd asesiad o'r effaith ar hawliau plant i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol.
<https://gweddiill.gov.wales/topics/health/nhswales/act/?lang=cy>

Ystyriwyd yr effaith ar hawliau plant ac nid yw wedi newid.

2.3 Cydraddoldeb

Cwblhawyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol.
<https://gweddiill.gov.wales/topics/health/nhswales/act/?lang=cy>

Ystyriwyd yr effaith ar gydraddoldeb ac nid yw wedi newid.

2.4 Prawfesur yr effaith ar gefn gwlad

Bydd gwella'r broses o gynllunio a darparu **gwasanaethau fferyllol** yn cael effeithiau cadarnhaol ar ardaloedd gwledig. Gall pobl mewn ardaloedd gwledig ddibynnu'n drymach ar y gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol os ydynt yn fwy hygyrch iddynt na gwasanaethau eraill. Os nodir bylchau mewn gwasanaethau mewn cymunedau gwledig drwy asesiadau o anghenion fferyllol, dylai hyn arwain at gymryd camau i sicrhau darpariaeth ddigonol.

Er bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu o'i fewn, drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi, y byrddau iechyd fydd â'r cyfrifoldeb am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol i ddiwallu anghenion y poblogaethau sy'n preswyllo yn eu hardaloedd.

Wrth lywio eu hasesiadau o anghenion fferyllol, bydd yn ofynnol i fyrddau iechyd asesu anghenion pobl leol er mwyn sicrhau bod digon o wasanaethau fferyllol yn cael eu darparu i bobl mewn cymunedau gwledig.

2.5 Iechyd

Bydd cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn cael effaith gadarnhaol fach iawn ar iechyd pobl yn gyffredinol yn rhinwedd effeithiau penderfynyddion ehangach iechyd (Incwm, Trosedd, Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Tai, Addysg, Cyflogaeth, Amaethyddiaeth, Cydlyniant Cymdeithasol).

⁴Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Er y bydd cyflwyno'r asesiad o anghenion fferyllol yn caniatáu i'r byrddau iechyd nodi angen y boblogaeth am wasanaethau fferyllol a chomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â newidynnau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (gweithgarwch corfforol, deiet, ysmegu, cyffuriau, neu ddefnyddio alcohol ac ymddygiad rhywiol), mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn y galw yn cael effaith negyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

Bydd cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn caniatáu i fyrddau iechyd nodi sefyllfaoedd lle y gall fferyllfeydd ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan wasanaethau meddygon teulu ac ysbytai gan helpu i ysgafnhau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny o ganlyniad. Felly, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y mynediad i amrywiaeth o gyngor a gwasanaethau proffesiynol ac y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau iechyd ehangach yn gyffredinol.

Mae pob fferyllfa gymunedol dan gontract i helpu i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys darparu cyngor ar fwyta'n iach. Lle mae fferyllfeydd wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaethau gwell, megis gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, mae hyn hefyd yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw.

Mae'r cynnig yn gyson â'r model Gofal Sylfaenol sy'n datblygu, lle mae'r model gofal cymdeithasol yn gofyn am ffocws ar les ac atal a dealltwriaeth o'r cyfleoedd sy'n bodoli ar draws y maes iechyd, gofal cymdeithasol a gweithlu'r trydydd sector i gefnogi unigolion mewn ffordd fwy cyfannol.

2.5 b. A allai'r cynnig gael effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?

Mae hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol gymedrol ar y boblogaeth gyffredinol ac yn benodol ar bobl hŷn, gofalwyr, y rhai ag anabledau a chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes a theuluoedd â phlant ifanc a fydd yn cael mynediad hwylus at gyngor a chymorth ar iechyd a lles.

Fodd bynnag, ni ystyrir y bydd y cynigion hyn yn cael effaith wahaniaethol sylweddol ar grwpiau penodol gan fod gwasanaethau fferylliaeth ar agor ac ar gael i bawb yn y gymuned.

Fel y nodwyd eisoes, nodwyd y polisi cyffredinol o ran a ddylid cyflwyno Aseidiadau o Anghenion Fferyllol yng Nghymru ac ymgynghorwyd arno yn 2012 yn ystod yr ymgynghoriad polisi sy'n ymwneud â diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992, a ddirymwyd wedyn a'u disodli gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

Gan fod y cynnig yn ceisio diwygio'r rheoliadau presennol ac y bydd ei effaith ar iechyd yn fach iawn, ni ystyrir bod angen cynnal asesiad manwl o'r effaith ar iechyd.

Preifatrwydd

Mae gan bob bwrdd iechyd ei restr fferyllol ei hun eisoes ac felly bydd ganddo eisoes brotocolau diogelu data ar waith er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol. Nid yw'r data a gesglir drwy'r aseidiadau newydd o anghenion fferyllol yn debygol o gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sensitif neu bydd unrhyw fanylion perthnasol fydd ganddyn nhw'n ddiennw.

ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES DIWYLLIANNOL A'R IAITH GYMRAEG?

3.1 Lles diwylliannol

Nid oes unrhyw effaith yn sgil y cynnig o ran cyfrannu at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

3.2Y Gymraeg

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ymgynghori ar eu Hasesiadau o Anghenion Fferyllol. Wrth wneud hynny, byddant yn ddarostyngedig i'w Cynllun Iaith Gymraeg hwy eu hunain a baratoir yn unol ag adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol.
<https://gweddi.gov.wales/topics/health/nhswales/act/?lang=cy>

Ystyriwyd yr effaith ar y Gymraeg ac nid yw wedi newid.

ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES ECONOMAIDD?

Mae cefnogi twf yn economi Cymru, a thrwy hyn fynd i'r afael â thlodi, yn ganolog i *Symud Cymru Ymlaen*, sef Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

Ystyrir y bydd y newidiadau'n cael effaith gadarnhaol gymedrol ar gontractwyr fferylliaeth, gan roi mwy o sicrwydd iddynt, lleihau'r risg i fusnes a'u galluogi i fuddsoddi er mwyn darparu gwasanaethau ehangach na'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

Fel y nodwyd eisoes yn yr Aseiad Effaith hwn, nod y rheoliadau yw sicrhau bod fferyllfeydd yn dod yn fwy ymatebol i'r poblogaethau y maen nhw'n eu gwasanaethu drwy asesu eu hanghenion. Wrth wneud hynny, dylai ystod gynyddol o wasanaethau a chynhyrchion fod ar gael ac yn fwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd drwy fod yn agosach at eu cartrefi.

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â'r cynnig hwn.

4.2 Y Sector Cyhoeddus gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill

Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bob bwrdd iechyd yng Nghymru. Gan fod y cynnig yn ceisio diwygio'r rheoliadau presennol, ychydig iawn o effaith a gaiff ar fyrddau iechyd. Fel y nodwyd o dan "Costau ac Arbedion", er y bydd datblygu, ymgynghori a chyhoeddi Aseidiadau o Anghenion Fferyllol yn ofyniad gweithdrefnol newydd ni fydd yn rhoi unrhyw faich ychwanegol o'i gymharu â'u cyfrifoldebau presennol.

4.3 Y trydydd sector

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r trydydd sector mewn perthynas â'r rheoliadau.

4.4 Effaith ar gyfiawnder

Bydd y cynnig yn cyflwyno rheoliadau newydd sy'n gofyn am aseidiadau o anghenion fferyllol; Nid yw'n creu, yn dileu nac yn diwygio trosedd, nac yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol newydd ac ni fydd yn cael unrhyw effeithiau eraill ar y system gyfiawnder. Felly nid oes aseiad o'r effaith ar gyfiawnder wedi'i gwblhau.

ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LESIANT AMGYLCHEDDOL?

O dan Adran 9 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi, cyhoeddi a gweithredu polisi adnoddau naturiol a chymryd pob cam rhesymol i'w roi ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. Cyhoeddwyd y [Polisi Adnoddau Naturiol](#) ym mis Awst 2017.

Bydd angen i chi ystyried a, lle bo angen, gwblhau'r asesiadau canlynol i sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd:

Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig:	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd cenedlaethol y Polisi Adnoddau Naturiol 	5.1a 5.1b
Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig	<ul style="list-style-type: none"> Bioamrywiaeth 	5.2 ac Atodiad F
Yn ofynnol ar gyfer pob cynnig	<ul style="list-style-type: none"> Newid Hinsawdd 	5.3
Cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Amgylcheddol Strategol 	5.4 a chanllawiau IIA
Cynigion a all effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SAC/SPA):	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd 	5.5 a chanllawiau IIA
Prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref; trafndiaeth; amaethyddiaeth; coedwigaeth; morol, draeniad tir; a thrydan sy'n gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan yr amryw Reoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Effaith Amgylcheddol 	5.6 a chanllawiau IIA

5.1 Adnoddau Naturiol

5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol (NRP)?

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar y Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi ar Adnoddau Naturiol.

5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Amherthnasol

5.2 Bioamrywiaeth

Mae'r Asesiad Effaith Bioamrywiaeth Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaethwedi'i lenwi yn Atodiad A.

5.3 Newid hinsawdd

Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar newid yn yr hinsawdd na datgarboneiddio.

5.3a Datgarboneiddio

Amherthnasol

5.3b Addasu

Amherthnasol

Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol i faterion amgylcheddol strategol o ganlyniad i'r cynnig hwn ac felly nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Nid oes unrhyw effeithiau i'r rheoliadau cynefinoedd o ganlyniad i'r cynnig hwn ac felly nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

5.6 Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i'r cynnig hwn ac felly nid oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

ADRAN 6. COFNOD O ASESIADAU EFFAITH LLAWN SYDD EU HANGEN

Rydych bellach wedi penderfynu pa ardaloedd y mae angen asesiad effaith manylach arnynt. Rhestrwch nhw isod os gwelwch yn dda.

Asesiad Effaith	Oes /Nac oes	Os oes, dylech
Hawliau plant	Oes	Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol
Cydraddoldeb	Oes	Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol
Prawfesur yr effaith ar gefn gwlad	Nac oes	
Iechyd	Nac oes	
Preifatrwydd	Nac oes	
Y Gymraeg	Oes	Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol
Economaidd / Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Oes	Cwblhawyd Asesiad Effaith Economaidd i gefnogi Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, gydag adran benodol (Rhan 6) ar Wasanaethau Fferyllol
Cyfiawnder	Nac oes	
Bioamrywiaeth	Oes	Gweler Atodiad A
Newid Hinsawdd	Nac oes	
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Nac oes	

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Nac oes	
Asesiad Effaith Amgylcheddol	Nac oes	

ADRAN 7. CANLYNIAD

(Nodwch y bydd yr adran hon yn cael ei chyhoeddi)

7.1 Sut y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi ymwneud â'r gwaith o'i ddatblygu?

Y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yw byrddau iechyd a'r personau hynny sy'n darparu a'r rhai sy'n bwriadu darparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Yn 2010 sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd grŵp gorchwyl a gorffen i:

- adolygu'r fframwaith rheoleiddio;
- ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan broffesiynau iechyd heblaw fferyllwyr (e.e. meddygon); a
- gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yw'n briodol, er mwyn creu system hirdymor, gosteffeithiol a chynaliadwy a fyddai'n rhoi i gleifion fynediad priodol at wasanaethau.

Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nod yr ymgynghoriad, *Cynigion i Ddiwygio a Moderneiddio Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) 1992*, oedd cael barn pobl ar gynigion i gyflwyno dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru a fyddai'n fwy seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrdau iechyd.

Sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor i ddatblygu manylion Rheoliadau drafft 2020 a fydd yn cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, hefyd yn newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan y personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Cafodd aelodau'r Gweithgor eu tynnu o blith arweinwyr fferyllfeydd y byrddau iechyd a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae swyddogion polisi hefyd wedi trafod y cynigion manwl gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru, y corff cydnabyddedig i gynrychioli fferyllwyr manwerthu yng Nghymru. Mae Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd wedi cymryd rhan yn yr un modd. Mae darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn gyfartal i bob person ar draws holl gymunedau Cymru. Roedd yr ymgynghoriad ynghylch Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn un cyhoeddus a rhoddwyd cyfle i gael ymateb oddi wrth:

- Plant a'u cynrychiolwyr;
- Pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Siaradwyr Cymraeg a grwpiau o arbenigwyr ar y Gymraeg; a
- Phobl eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Yn ystod y dystiolaeth a ddarparwyd ar ran BMA Cymru Wales yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 15 Rhagfyr 2016 gofynnwyd i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus ar y pryd roi sicrwydd na fyddai'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol gan feddygon fferyllol fel y'u nodir yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol)

(Cymru) 2013 yn newid. Rhoddwyd y sicrwydd hwn ac nid yw'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol gan feddygon fferyllol wedi newid.

Bydd cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn caniatáu i fyrddau iechyd allu cynllunio'n well o ble y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu ac i nodi sefyllfaoedd lle y gall fferyllfeydd ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan feddygon teulu a gwasanaethau ysbytai gan helpu i ysgafnhau'r pwysau ar y gwasanaethau hynny o ganlyniad. Felly, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y mynediad i bob math o gyngor a gwasanaethau proffesiynol gydag effaith gadarnhaol ar wasanaethau iechyd ehangach yn gyffredinol.

Bydd poblogaethau ledled Cymru yn elwa o gynnydd yn yr ystod o wasanaethau fferyllol sy'n cael eu darparu.

Bydd y newidiadau yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr fferyllfeydd, gan leihau risg i'r busnes a'u galluogi i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau sy'n ehangach na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd.

Bydd cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn cael effaith gadarnhaol fach iawn ar iechyd pobl yn gyffredinol yn rhinwedd effeithiau penderfynyddion ehangach iechyd (Incwm, Trosedd, Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth, Tai, Addysg, Cyflogaeth, Amaethyddiaeth, Cydlyniant Cymdeithasol).

Er y bydd cyflwyno'r asesiad o anghenion fferyllol yn caniatáu i'r byrddau iechyd nodi angen y boblogaeth am wasanaethau fferyllol a chomisiynu gwasanaethau sy'n ymwneud â newidynnau sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (gweithgarwch corfforol, deiet, ysmegu, cyffuriau, neu ddefnyddio alcohol ac ymddygiad rhywiol), mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn y galw yn cael effaith negyddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; ac yn / neu'n**
- **osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol ledled Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo Cymru iachach. Gwneir hyn drwy wella mynediad i fwy o wasanaethau fferyllol mewn nifer uwch o leoliadau nag a ddarperir o dan y system bresennol o benderfynu pa wasanaethau a ddarperir ac o ble. Bydd gwella mynediad i wasanaethau fferyllol yn arwain at well rheolaeth ar anhwylderau cyffredin a chyflyrau cronig yn nes at gartrefi'r cleifion.

Bydd poblogaeth iachach yn cyfrannu at Gymru fwy ffyniannus a chydnerth drwy gynyddu canlyniadau iechyd cadarnhaol y boblogaeth sy'n gweithio, er enghraifft gellir disgwyl i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin a ddarperir mewn fferyllfeydd cymunedol leihau nifer y dyddiau gwaith a gollir.

7.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddi fynd yn ei blaen a phan ddaw i ben?

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau ceisiadau ac apeliadau i asesu a yw cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn arwain at ostyngiad. Bydd swyddogion yn ymgysylltu â byrddau iechyd am adborth ar eu profiad o gynhyrchu eu hasesiad cyntaf o anghenion fferyllol. Cynhelir dadansoddiad ansoddol i ganfod a yw byrddau iechyd yn cael anhawster i gynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol o dan ofynion Rheoliadau 2020.

Bydd proses debyg o ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau fferyllol yn cael ei chynnal i ganfod eu profiadau o orfod gwneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol o dan y system asesu anghenion fferyllol.

ADRAN 8. DATGANIAD

Datganiad

Rwy'n fodlon bod effaith y camau arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r uwch swyddog cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr : Alex Slade, yr Is-adran Gofal Sylfaenol

Adran: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad: xx

A. ASESAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Ni fydd ffactorau cynhyrchu sy'n gysylltiedig â darparu fferyllfeydd manwerthu a'r gwasanaethau fferyllol y maen nhw'n eu darparu ar sail tebyg am debyg yn newid ar ôl cyflwyno'r asesiad o anghenion fferyllol.

Mae fferyllfeydd manwerthu wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol adeiledig yn bennaf ac maent yn annhebygol o gael eu lleoli mewn cynefinoedd sensitif. Gall nifer o safleoedd meddygon fferyllol fod yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig, ond bydd angen i unrhyw safle ymarferydd cyffredinol gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladu a chynllunio berthnasol.

Nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol o ran y dangosyddion ategol ar gyfer defnyddio adnoddau'n gynaliadwy na chynnal yr amgylchedd, ac nid oes unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth nac ôl troed ecolegol Cymru, ac eithrio gostyngiadau posibl mewn amser teithio sy'n deillio o'r newidiadau i wasanaethau fferyllol.

Felly, ystyrir na fydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effaith ar Fioamrywiaeth.